

Cenn@d

CHWEFROR 15 2023 YN CYNNWYS Y GOLEUAD A SEREN CYMRU RHIF 103

Heriau'r ymdrech ddyngarol yn Nhwrci a Syria

Union wythnos wedi'r daeargryn a effeithiodd ar ardaloedd poblog yn Nhwrci a Syria ar 6 Chwefror, cyhoeddwyd bod dros 33,000 o drigolion wedi colli eu bywydau, gydag 29,605 ohonynt yn Nhwrci a 3,576 yn Syria. Mae'r nifer hwn yn debygol o godi eto wrth i fwy o gyrff gael eu canfod, ac eraill yn marw oherwydd diffyg gwasanaethau argyfwng digonol. Amcangyfrifir bod y daeargryn wedi effeithio ar tua 17 miliwn o bobl, gyda llawer wedi colli eu cartrefi a llawer iawn mwy wedi gorfod ffoi oherwydd bod yr isadeiledd yn beryglus. Gyda chynifer yn ddigartref, mae'r tywydd oer a rhewlyd ac eira yn gwneud y gwaith yn fwy heriol fyth. Yn ychwanegol at hyn, mae'r tensiynau a'r ymladd yn Syria yn gwneud y gwaith dyngarol yn fwy peryglus a chymhleth yn y wlad honno. Bu arweinwyr y wlad yn gyndyn ar y dechrau i ganiatáu cymorth dyngarol i mewn o gwbl, ond erbyn hyn mae'r Cenhedloedd Unedig wedi sicrhau caniatâd i ddod ag offer ac adnoddau brys ynghyd â gweithwyr argyfwng i gefnogi'r ymdrech.

Yn gynnar fore Llun, 6 Chwefror, trawodd daeargryn â dwyster Mercalli o 7.8 ardal yn ne a chanolbarth Twrci a gogledd a gorllewin Syria, gyda thua 70 o ôl-gryniadau yn dilyn. Cafwyd difrod enbyd i adeiladau mewn trefi, ac yn anffodus erbyn hyn collwyd degau o filoedd o fywydau. Yn eu plith clywyd bod teulu o Syria sydd wedi ymgartrefu yn nhŷ capel y Priordy yng Nghaerfyrddin wedi cael gwybod eu bod wedi colli chwech o'u perthnasau, sef tad, mam a phedwar o'u plant, yn y daeargrynfeydd sydd wedi taro'r wlad. Hwn oedd y daeargryn mwyaf marwol yn Nhwrci ers daeargryn Erzincan yn 1939, a'r daeargryn mwyaf marwol yn Syria ers daeargryn Aleppo yn 1822.



Mae'n bosib na fyddwn yn gyfarwydd â'r rhan yma o'r byd, ond efallai y bydd o ddi-ddordeb nodi mai'r hen enw ar Antakia, un o'r trefi a ddi-ddorfodd, yw Antioch. Dyma gartref un o'r eglwysi Cristnogol cynharaf, ag Eglwys Pedr ar y Graig yno'n cael ei chydabod fel un o'r eglwysi Cristnogol hynaf yn y byd. Dwy dref arall yr effeithiwyd arnynt yw Mersin ac Adana sydd wrth ymyl Tarsus, sef cartref yr apostol Paul.

Mae yna nifer o eglwysi Bedyddiedig yn yn yr ardal, ac eisoes cafwyd cyswllt â nhw. Meddai Ertan Çevi, Llywydd Ffederasiwn Eglwysi Bedyddiedig Twrci:

Mae ein gwlad mewn sioc fawr. Mae llawer o adeiladau wedi'u difrodi a bu'n rhaid i filoedd adael eu cartrefi. Mae'n oer iawn yma, ac yn bwrw eira yn y rhan fwyaf o'r ardaloedd a effeithiwyd, ac mae'r ffyrdd hefyd wedi'u difrodi'n ddifrifol. Mae hyn yn gwneud y chwilio a'r achub yn fwy anodd. Diolch i'r Arglwydd, mae ein heglwysi Bedyddwyr a'r aelodau i gyd yn ddiogel. Mae Adana ymhlith y dinasoedd yr

effeithiwyd arnynt, ac nid yw'n glir eto a yw'r adeilad wedi'i ddifrodi ai peidio. Cwmpodd dau adeilad cyfagos i'r fan lle mae gweinidog Eglwys y Bedyddwyr Adana ac Ysgrifennydd Cyffredinol ein Hundeb a'i deulu yn byw. Mae aelodau Eglwys Adana i gyd yn ddiogel ac yn byw yn eu ceir a llochesi ar hyn o bryd. Gweddiwch dros ein gwlad a thros y rhai a gollodd eu hanwyliaid. Gweddiwch hefyd y bydd y gefnogaeth ddynol sydd ei hangen yma a'r cyfarpar argyfwng yn ein cyrraedd yn gyflym ac effeithiol.

Cefnogaeth i apêl DEC

Y flaenoriaeth bellach yw sicrhau cymorth dyngarol cyflym ac effeithiol. Lansiwyd apeladau yn syth gan lawer o'r mudiadau dyngarol, a bu i ni lwyddo i gynnwys datganiad brys gan Gymorth Cristnogol yn rhifyn yr wythnos diwethaf o *Cenn@d*. Yna, o fewn tridiau, ddydd lau, 9 Chwefror, cyhoeddwyd bod mudiad DEC (Disasters Emergency Committee), y corff ymbarél y mae'r rhan fwyaf o elusennau dyngarol yn gweithio drwyddo, yn lansio

[\(parhad ar y dudalen nesaf\)](#)

Heriau'r ymdrech ddyngarol yn Nhwrci a Syria

(parhad o dudalen 1)

apêl argyfwng. Cafwyd addewid o £2 miliwn gan Lywodraeth San Steffan a £300,000 gan Senedd Cymru. Wrth lansio apêl DEC Cymru yn y Senedd, meddai Peredur Owen Griffiths AS, mewn cyfweiliad gyda Cenn@d,



Peredur Owen Griffiths, AS, gyda chynrychiolwyr o'r mudiadau dyngarol sy'n rhan o DEC o flaen y Senedd yn lansio'r apêl

Mae'r dinistr yn Nhwrci a Syria yn dorcalonnus, gyda miloedd o bobl yn colli anwyliaid yn sydyn yn y ffyrdd mwyaf ysgytwol. Mae angen arian ar frys i gefnogi teuluoedd gyda chymorth meddygol, lloches brys, bwyd a dŵr glân mewn tywydd gaeafol, rhewllyd. Ar ôl siarad â chymunedau Twrciaidd a Syriaidd yn fy rhanbarth mae'r gofid a'r torcalon yn treiddio yn ddwfn i mewn i'n cymunedau ni yma yng Nghymru. Byddwn yn annog pawb i gefnogi apêl DEC ac i gofio am y miloedd sydd wedi eu heffeithio yn ein gweddïau.

Apeliwn felly arnoch fel darllenwyr Cenn@d i ymateb yn raslon ac yn weddigar. Gweddïwn dros bawb sy'n

galaru am anwyliaid a gollwyd a dros bawb a anafwyd, dros y rhai sy'n bryderus wrth ddisgwyl newyddion am anwyliaid sydd ar goll, a dros y rhai y dinistriwyd eu cartrefi a'u cymunedau. Gweddïwn dros y cymorth dyngarol, dros y gwirfoddolwyr, am ddiogelwch a rhwyddineb i gynnig y gefnogaeth orau posib o dan amgylchiadau mor heriol.

Apelir arnom hefyd i gyfrannu hyd at eithaf ein gallu at ymdrech DEC. Maent yn nodi bod 17 MILIWN o bobl yn byw yn yr ardal yr effeithiwyd arni, gyda llawer ohonynt angen cymorth brys am loches,

bwyd a chymorth meddygol. Noda DEC mai arian sydd ei angen ar hyn o bryd, er mwyn iddynt brynu'r hyn sydd ei angen ar fyrder. Maent yn nodi y gallai £30 ddarparu blancedi ar gyfer chwech o bobl i'w cadw'n gynnes, y byddai £50 yn darparu bwyd i ddau deulu am 10 diwrnod ac y byddai £100 yn darparu lloches brys i bedwar teulu. Yn ôl DEC Cymru llwyddwyd i godi £1.2 miliwn yng Nghymru ar ddiwrnod cyntaf yr apêl, a £32 miliwn dros y Deyrnas Unedig. Gallwch gyfrannu ar lein drwy glicio [YMA](#).

Aled Davies


Cytûn yn adrodd ar eu gweithgaredd

Gellir dod o hyd i Fwletin Polisi cyfredol Cytûn o ddilyn y ddolen hon ar y we: [Bwletin Polisi Chwef/Mawrth 2023 – Eglwysi Ynghyd yng Nghymru | Churches Together in Wales \(cytun.co.uk\)](#)

Yn ogystal â'r rhyngllymddangosodd yn rhifyn yr wythnos diwethaf am gysylltiadau Cymreig caethwasiaeth fodern, fe geir llawer o ddeunydd diddorol i bori ynddo yn y rhifyn cyfredol o Fwletin Polisi Cytûn. Adroddwyd eisoes yn Cenn@d a'r Adran Gydenwadol yn Y Tyst am gymorth gyda biliau ynni y gaeaf hwn, yn ogystal â sefyllfa'r cwmni Masnach Deg Traidcraft. Ceir rhagor o wybodaeth am sut i gael gafael ar y nwyddau Masnach Deg y byddai Traidcraft yn arfer eu cyflenwi ac anogaeth i gefnogi'r mudiad [Cymru Masnach Deg](#) ac i gymryd rhan yng ngweithgareddau [Pythefnos Masnach Deg 2023](#) (27 Chwefror–12 Mawrth).

Wrth adrodd am [Gynghair Cymhwysiant Digidol Cymru](#) a rhan yr eglwysi ynddo, mae Aled Davies yn ein hannog nid yn unig i greu gofodau cynnes i bobl sydd eu hangen, ond llefydd lle gall pobl yn ein cymunedau gael help i gael mynediad i wasanaethau ar-lein.

Roeddem yn falch iawn o'r newydd fod y Parch. Gethin Rhys, Swyddog Polisi Cytûn, ymhlith [100 o Ysgogwyr Newid](#) yng Nghymru a gafodd eu cydnabod am eu gwaith yn ysbrydoli defnyddio [Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol](#). Meddai Gethin, "Dydwi ddim fel arfer yn un am anrhydeddau, ond rwy'n mawr werthfawrogi'r gydnabyddiaeth hon o werth llais ffydd yn y sgwâr cyhoeddus yng Nghymru."



Coffáu cyhoeddus yng Nghymru

Yn dilyn dadleuon diweddar am gerfluniau a chofebau, gan gynnwys rhai mewn eglwysi, enwau strydoedd ac ati, mae Llywodraeth Cymru (drwy Cadw) wedi penderfynu datblygu canllawiau ar goffáu cyhoeddus yng Nghymru. Bydd [ymgyngoriaid cyhoeddus](#) yn cael ei gynnal tan 21 Chwefror. Mae Cadw a Cytûn yn awyddus i eglwysi a chymunedau ffydd eraill ymateb. Bydd Cytûn yn croesawu cyfraniadau i'w hymateb hwythau ar ein rhan erbyn 14 Chwefror (e-bost: gethin@cytun.cymru).

Os hoffai rhywun fod ar y rhestr i dderbyn y bwletin deufisol hwn gan Cytûn, anfonwch e-bost, eto at gethin@cytun.cymru, yn holi am hynny.

Rhwydwaith Banciau Bwyd Sir y Fflint yn dal i gyflenwi ddeng mlynedd ers ei sefydlu

Sefydlwyd Banc Bwyd Sir y Fflint yn yr Wyddgrug ym mis Mai 2012, pan ddaeth yn amlwg am y tro cyntaf fod angen y gwasanaeth yn yr ardal. Ar y pryd ni feddyliai'r elusen y buasai cymaint o alw am y gwasanaeth yn parhau ymhen degawd.

Mae data gan y banc bwyd yn dangos y nifer cynyddol o bobl sydd angen cymorth ers ei gychwyn ym Mehefin 2012, pryd y darparwyd bwyd i 58 o bobl. Deng mlynedd yn ddiweddarach, yn ystod mis Mehefin 2022 yn unig, roedd oddeutu 885 o bobl yn y sir mewn cyfnod o argyfwng, wedi derbyn bwyd gan y banc bwyd.

Mae'r banc bwyd yn rhan o Ymddiriedolaeth Trussell, rhwydwaith o fanciau bwyd drwy'r Deyrnas Unedig sydd yn darparu bwyd a chefnogaeth mewn argyfwng.

Gall unrhyw un sydd yng nghanol tloidi bwyd dderbyn cymorth. Mae'r gwasanaeth yn gweithredu ar sail system talebau atgyfeiriol. Mae'r data cyfredol yn dangos bod teuluoedd cyffredin yn medru cael eu hunain mewn argyfwng am nifer o resymau megis diswyddiadau, budd-daliadau yn cael eu talu'n hwyr, gwaeledd annisgwyl neu godiad diweddar mewn biliau am wasanaethau cyhoeddus. Gall hyn orfodi unigolion i ddewis rhwng rhoi bwyd ar y bwrdd, talu'r rhent neu wresogi'r tŷ.

Er mwyn cynnig cymorth addas i unigolion, mae'r banc bwyd yn cydweithio â nifer o asiantaethau

lleol, cofrestredig, sydd yn cyfeirio'r unigolion ac yn eu hasesu, ac yn nodi eu hanghenion cyn bod talebau bwyd yn cael eu cyflwyno iddynt. Mae cydweithio rhwng Cyngor Sir y Fflint a Chyngor Gwirfoddol Lleol Sir y Fflint yn golygu bod pobl sydd mewn angen yn cael eu cyfeirio i dderbyn talebau. Yna cymerir manylion am y teulu a chynigir arweiniad iddynt hefyd. Mae pob parcel o fwyd yn cynnwys cyflenwad bwyd maethlon am dridiau ynghyd â bwyd babi, pethau ymolchi a glendid personol. Hefyd, mae bwyd anifeiliaid ar gael os gwneir cais am hynny.

Un o'r pethau mwyaf anodd i'r gwasanaeth yw darparu bwyd a chefnogaeth i'r rhai sydd yn ddiartref. Yn aml nid oes ganddynt unrhyw gyfleusterau i goginio bwyd. Yn naturiol, mae rhai yn ei chael yn anodd i ymweld â'r banc bwyd, ond mae'r staff yn cynnig cefnogaeth ymarferol a charedig iddynt gan beidio â barnu neb, ac mae cyfrinachedd a phreifatrwydd yn cael eu parchu.

Mae'r gwasanaeth yn hollol ddibynnol ar roddion bwyd ac arian gan y cyhoedd, gyda llawer o fusnesau'n creu cynlluniau gwahanol i gefnogi'r elusen. Mae manau casglu bwyd a rhoddion mewn nifer fawro gapeli, eglwysi, ysgolion, manau gwaith a hamdden. Mae'r archfarchnadoedd hefyd yn chwarae rhan lawn yn y gwasanaeth drwy ddarparu manau i dderbyn rhoddion yn eu siopau. Cesglir y rhoddion gan fan y Trussell Trust ac yna fe'u cludir i'r warws yn yr Wyddrug. Yno, maent yn cael eu gwirio, eu sortio ac yna



eu hailddosbarthu i'r naw o ganolfannau banc bwyd yn y sir. Yn ddiweddar, mae banc bwyd Sir y Fflint wedi creu ap 'Bank the Food', sydd yn dangos pa fwydydd sydd yn brin ganddynt.

Mae'r banc bwyd hefyd yn croesawu rhoddion ariannol a gellir ychwanegu Rhodd Cymorth at hyn. Mae'r rhoddion hyn yn hanfodol i dalu am gostau megis trydan, cynnal a chadw adeilad a cherbydau'r elusen a chostau rhedeg yr elusen, a hefyd i brynu bwyd a nwyddau sydd yn brin. Ceir manylion ynglŷn â sut i wneud cyfraniad ariannol ar wefan yr elusen neu ar Facebook.

Yn olaf, mae'n bwysig iawn nodi bod dros 60 o weithwyr gwirfoddol ymroddedig yn cydweithio ag Arweinydd y Fenter, Sue Leake, a thîm bach o reolwyr i redeg y banc bwyd, ac mae dyled y banc bwyd i bawb yn y gymuned sydd yn cyfrannu at yr elusen.

Cred y Trussell Trust na ddylai neb fod yn llwgu er gwaethaf yr anawsterau mae cymaint o deuluoedd yn eu hwynebu ar hyn o bryd.

Am fwy o wybodaeth, cysyllter ag:
Y Brif Swyddfa, Yr Hen Lyfrgell,
Raikes Lane, Yr Wyddgrug, CH7 6NW
Dydd Mawrth a Dydd Gwener
08.00am–14.00pm.
Ffôn: 01352 757235
Ebost: info@flintshire.foodbank.org.uk
Gwefan: www.flintshire.foodbank.org.uk
Facebook ac Instagram:
[@flintshirefoodbank](https://www.facebook.com/flintshirefoodbank)

Ewch ar wefan y Trussell Trust i weld ble mae eich banc bwyd agosaf a beth yw ei anghenion: <https://www.trusselltrust.org>

Beth Jones
gwirfoddolwr gyda'r Banc Bwyd



Urddas, llais a grym – Sul Tlodi, 19 Chwefror



Church Action on Poverty

Dyma ddetholiad bychan wedi ei drosi i'r Gymraeg o'r adnoddau a'r syniadau sydd ar gael i nodi Sul Tlodi gan fudiad yr Eglwys yn Gweithredu yn erbyn Tlodi (Church Action on Poverty, CAP). Mae'n gyfle i fyfyrion a gweddïo am newid, a chodi arian i gefnogi mudiad sy'n gweithio i fynnu urddas, llais a grym i rai sydd yng ngafael tlodi.

Ffafiaeth

Seiliwyd ar Iago 2:1-10 (11-13), 14-17

A fuest ti erioed yr olaf i'w ddewis i'r tîm
a chael dy frifo tu mewn am fod pawb wedi eu dewis
o dy flaen di?
A fuost ti erioed mewn dosbarth yn yr ysgol lle mai rhywun arall
oedd ffefryn yr athro a thithau'n holi pam?
Gerddaist ti erioed i mewn i ystafell yn dy ddillad gorau,
dim ond i weld bod pawb arall mewn dillad hamdden
ac yn syllu arnat ti?
A deimlaist ti erioed yn annifyr yn rhywle am mai
academyddion neu bobl efo arian,
neu bobl chwaraeon neu'r 'cyfryngis' oedd yno
a thithau yr unig un efo swydd 'gyffredin'?
Wnest ti erioed geisio ymuno efo clwb a chanfod bod
y 'cylch mewnol' yn adnabod ei gilydd mor dda,
ac yn gadael pawb arall yn oer y tu allan?
Feddyliaist ti erioed fod yna anghyfartaledd llwyr
rhwng y cyfoethog a'r tlawd, gyda'r cyfoethog yn cael
y ffafrau i gyd a'r tlawd yn cael eu gadael i edrych ar ôl eu hunain?
Ymddygiad gwarthus, yntê?

Ond taset ti'n cerdded i mewn i'r capel ar fore Sul
a gweld ffrind cefnog i lawr yn y blaen a pherson digartref
yn cuddio yn y sedd gefn, at bwy fyddet ti'n mynd i eistedd?
Ac os byddet ti am wneud argraff,
pa un fyddet ti'n ei wahodd adref am bryd o fwyd?
A sut fyddet ti'n dewis pe byddai'r ddau'n gofyn am gael
aros yn dy 'stafell sbâr' di y noson honno?
Bydd yn onest!

Does gan Dduw ddim ffefrynnau,
ond yn sicr mae ganddo ogwydd
tuag at y tlawd, ar sail y ffaith y dylai'r cyfoethog
allu edrych ar ei ôl ei hun,
ond nad oes gan y tlawd yn aml y modd i wneud hynny.

Gwneud ichi feddwl, 'dydy? Neu fe ddylai.

© Marjorie Dobson

Ro'n i'n meddwl mod i'n gwybod

Ro'n i'n meddwl mod i'n gwybod.
Ro'n i wedi darllen cylchgronau ac erthyglau
papur newydd ac apêl gan elusennau,
wedi gweld lluniau,
gwyllo rhaglenni dogfen ar y teledu.
Ro'n i'n meddwl mod i'n gwybod am dlodi.
Ond fe gadwyd y caledi, yr angen, a'r diffyg gobraith
yn saff tu ôl i'r sgrin,
neu wedi eu clymu i eiriau llonydd y papur.
Ro'n i'n meddwl mod i'n gwybod,
ond doeddwn i ddim yn gwybod.
Yna, fe wnes i wrando ar straeon y rhai
oedd yn dod i'r banc bwyd,
a dod wyneb yn wyneb
â salwch, anffawd, anallu biwrocraidd a diffyg goddefgarwch,
gohirio budd-daliadau, tâl annigonol, dewisiadau gwael,
trais yn y cartref, digartrefedd,
dim canllawiau i'm cadw rhag y boen a'r anobaith.
Ro'n i'n meddwl mod i'n gwybod,
ond doeddwn i ddim yn gwybod.
Fe es i 'nôl adref i 'nhŷ cynnes, cysurus,
fy incwm addas a'm cynilion,
fy mywyd iach, di-ddyled.
Ro'n i'n meddwl mod i'n gwybod
ond wyddwn i ddim go iawn.

O Dduw, rho i mi, os gweli'n dda,
y gras i gyfaddef na wn i ddim sut beth yw bod mewn tlodi,
y dewrder i wneud fy llais yn glywadwy ar ran y tlawd,
yr ewyllys i wneud yr hyn sydd o fewn fy ngallu i helpu.
Amen.

(Gwreiddiol: Brian Ford)

Gweddi Sul Tlodi

Drindod Sanctaidd, rwyt ti'n rhoi urddas i bawb,
Atgoffa ni ein bod ni'n werthfawr yn dy olwg.
Dduw cariadus, rwyt ti'n codi'r rhai sy'n isel,
Atgoffa ni o'r rheiny na welir eu gwerth.
Iesu Grist, rwyt ti'n dod â newyddion da i'r tlawd,
Atgoffa ni i ymestyn allan am gyfiawnder i bawb.
Ysbryd Glân, rwyt ti'n rhyddhau'r rhai sy'n gaeth,
yn ein herio a'n hysbrydoli,
Nertha ni i sefydlu cymdeithas y gall pawb berthyn iddi.
Urzula Glieneck

Gellir dod o hyd i adnoddau a syniadau ar gyfer nodi Sul Tlodi (Church Action on Poverty) ar 19 Chwefror, neu unrhyw bryd y bo'n addas, ar wefan y mudiad CAP: <https://www.church-poverty.org.uk/>.

Blwyddyn ers dechrau Rhyfel Wcráin

Mae Cymorth Cristnogol yn gwahodd eglwysi i ymuno mewn gweddi ac undeb gyda phobl Wcráin ddydd Sul, 26 Chwefror. Fe drefnir cyfres o wylnosau ganddynt i nodi blwyddyn ers dechrau'r rhyfel ar 24 Chwefror. Bydd gweddi ar gael yn y rhifyn nesaf o *Cenn@d* er mwyn ichi ystyried ei defnyddio fel rhan o'ch gwasanaeth ar y Sul neu mewn unrhyw ddigwyddiad a drefnir yn eich cymuned chi.

(Gol.)

Teyrnged i'r Parch. Blodwen Jones

Wedi dyddiau ysgol yn Nhrefriw a Llanrwst cafodd Blodwen hyfforddiant i fod yn athrawes yng Ngholeg Cartrefle, Wrecsam. Roedd ei swydd gyntaf yn Knutsford ac wedi cyfnod byr yno cafodd swydd yn Nhal-y-bont, Dyffryn Conwy, ac wedi hynny ym Maentwrog. Daeth wedyn yn brifathrawes Ysgol Bodlondeb, Conwy, ac wedi hynny yn Ysgol Cadnant, Conwy.

Cafodd Blodwen yrfa lwyddiannus ym myd addysg gan frwydro i sicrhau addysg ddwyieithog yn ei hysgolion. Bu'n frwydr galed, a llawenydd mawr iddi oedd cael clywed y plant yn siarad Cymraeg ar fuarth yr ysgol.

Bu Blodwen hefyd yn weithgar iawn yn ei chymuned. Bu'n gynghorydd sir, yn gadeirydd Cymdeithas Gruffydd ap Cynan, ac fe'i hanrhydeddwyd gan fudiad Merched y Wawr drwy gael ei dewis yn llywydd anrhydeddus rhanbarth Aberconwy.

Yn 1992, a hithau yn ei chwedegau cynnar, daeth newid cyfeiriad yn ei bywyd. Wedi cyfnod o baratoi yn y Coleg Diwinyddol yn Aberystwyth, cafodd ei hordeinio'n weinidog gan Eglwys Bresbyteriaid Cymru. Fe'i neilltuwyd gan Henaduriaeth Dyffryn Conwy i weinidogaethu drwy ymweld â chartrefi preswyl yn y cylch gan weinyddu'r Cymun ynddynt yn rheolaidd bob chwech wythnos. Roedd y gwaith yma wrth fodd ei chalon a bu'n ei gyflawni am wyth mlynedd.

Yna daeth galwad i fod yn weinidog yng Nghapel Coffa yr Annibynwyr, Cyffordd Llandudno, a chafodd ei sefydlu yno fis Mai 2000. Roedd Blodwen yn gymeradwy iawn gan bawb ac yn uchel iawn ei pharch. Roedd ganddi gryfderau amlwg ar gyfer y gwaith. Gallai gyfathrebu'n rhwydd â'r plentyn ieuengaf fel â'r aelod hynaf. Roedd ganddi ddawn arbennig i wrando ac i gysuro. Gwerthfawrogi ei bugeilio gofalus a'i pharatoi manwl ar gyfer y pulpud. Bu'n weinidogaeth fendithiol iawn hyd ei hymddeoliad yn Rhagfyr 2007.

Drwy wahanol gyfnodau yn ei bywyd fe welwyd cadernid ei chymeriad a hynny'n seiliedig ar gryfder ei ffydd. Pan fu farw ei gŵr cyntaf, Dewi, ac yntau yng nghanol prysurdeb ei waith fel gweinidog yn Llan Ffestiniog, fe'i gadawyd yn wraig weddw ifanc gyda phlentyn chwe mlwydd oed i'w fagu. Bu'n rhaid iddi adeiladu bywyd newydd iddi hi ei hun a chreu cartref a dyfodol diogel iddi hi ac i loan.

Tua hanner can mlynedd yn ddiweddarach, pan fu farw Tom, ei hail ŵr, mor annisgwyl, gwelwyd yr un cryfder a chadernid yn ei chymeriad eto wrth iddi frwydro i ddygymod â'i phrofedigaeth a pharhau gyda'i diddordebau a'i gweithgareddau. Gwerthodd y fferm a symud i fyw i'r Cyffordd. Ond ymhen ychydig amser, oherwydd cyflwr ei hiechyd, bu raid iddi symud i gartref gofal yn Llandudno. Bu'n gefn ac yn gysur i lawer yno. Daeth



gweinidogaeth dros y ffôn a thrwy Zoom yn gymorth iddi yn ystod y cyfnod hwn. Roedd ganddi lawer iawn o gyfeillion ac fe gadwai mewn cysylltiad cyson â nifer fawr ohonynt drwy'r ffôn. Roedd wedi trefnu i weinyddu'r Cymun yn y cartref ym mis Ionawr. Ond nid felly y bu. Daeth diwedd un cyfnod a dechrau un arall yng nghwmni'r Crist a garai mor fawr. Bu farw yn dawel yn yr ysbyty ar 11 Ionawr 2023.

Bu'r angladd yn y Capel Coffa ar 25 Ionawr. Gwasanaethwyd gan ei gweinidog, y Parch. W. Gareth Edwards, yn cael ei gynorthwyo gan y Parch. Brian Wright a'r Parch. Trefor Lewis yn y capel a'r Parch. Angharad Roberts a'r Parch. Helen Wyn Jones yn Amlogfa Bae Colwyn.

Cydymdeimlwn ag loan, ei mab, â Siân, ei briod, a Rhian a Huw, ei hwyrion.

Gareth Edwards

Brwdfrydedd newydd ym Mhenuel Newydd

'Mae'na frwdfrydedd newydd yn yr eglwys a theimlad cyffrous am ein dyfodol!' esbonia Glyndwr Prideaux, un o swyddogion Eglwys Fedyddiedig Penuel Newydd, Gorseinon. Y rheswm am yr optimistaeth newydd yw'r ffaith fod yr eglwys wedi dechrau ar bennod newydd yn ei hanes ar ôl uno dwy gynulleidfa. Ac weithiau, dechrau ar rywbeth newydd gyda'n gilydd yw'r cyfan sydd ei angen i Ddwy weithio mewn sefyllfa – fel mae cynulleidfaoedd eraill a unodd ymhellach yn ôl wedi profi.

Casllwchwr

Sefydlwyd achos cyntaf y Bedyddwyr yng Nghasllwchwr ym 1842, er bod tystiolaeth wedi bod yn yr ardal ers dyddiau Eglwys Ilston ym 1649. Ar ôl rhai blynyddoedd roedd yr aelodau'n teimlo bod angen

sefydlu eglwys yng Ngorseinon gerllaw ac agorwyd Seion yn 1899. Am flynyddoedd lawer bu'r eglwysi'n cydweithredu fel cymdogion, ond dros y degawdau diwethaf dechreuodd y niferoedd ddirywio'n raddol.

Gwelson nhw fod y ddwy eglwys yn wynebu heriau tebyg ac yn hydref 2021 daethant at ei gilydd i gynnal cyfarfod i ddechrau trafod y syniad o ddod â'r ddwy eglwys at ei gilydd. Dechreuon nhw gynnal addoliad gyda'i gilydd drwy gynnal gwasanaethau boreol yn Seion, Noddfa, a gwasanaethau nos ym Mhenuel. Dechreuodd hyn greu ymdeimlad o berthyn ac agoswydd, ac ar ôl cynnal nifer o gyfarfodydd eglwysig a thymor o weddi ddwys penderfynodd y ddwy gynulleidfa uno'r ddwy eglwys a chreu un eglwys newydd, gan ddwyn yr enw 'Penuel Newydd'.

Cynhaliwyd gwasanaethau o ddiolchgarwch am orffennol y ddwy eglwys ddydd Gwener y Grogolith ac ar Sul y Pasg 2022, cyn sefydlu Penuel Newydd y Sul canlynol yn ei gartref newydd yng Nghasllwchwr. Wedi cyfrannu cymaint at y broses, ymddeolodd y Parch. Huw Roberts fel gweinidog y gynulleidfa newydd ym mis Gorffennaf 2022.

Fel y dywed Glyndwr, 'Dwi i wedi bod yn bles iawn ers i ni uno. Gawson ni fendith hefyd o dderbyn aelodau newydd o Soar, capel yr Annibynwyr, gan fod yr achos hwnnw wedi'i ddirwyn i ben yn ddiweddar. Rydym yn bendant yn edrych ymlaen at y dyfodol gyda'n gilydd ac yn gweddio am arweiniad yr Ysbryd wrth i ni geisio gweinidog newydd i ni fel eglwys i'n symud ymlaen.'

ADNABOD

Cymeriadau'r Hen Destament

ABRAHAM

Cyfes o astudiaethau gan y Parch. Meirion Morris ar gyfer grŵp neu unigolion; gellir eu defnyddio ochr yn ochr â'r gyfrol *Dehongli Bywyd Abraham* gan Gareth Lloyd Jones.

18 Torri corneli

Darllen: Genesis 16:1-6

(Gweler hefyd *Dehongli Bywyd Abraham*, gan Gareth Lloyd Jones, Pennod 10)

Rwyf eisoes wedi cyfeirio yn y gyfes hon at yr angenrheidrwydd o gael dealltwriaeth Feiblaidd gyflawn o'r hyn ydym wrth natur. Un o'r pethau sy'n gwneud deall y digwyddiad yma yn anodd, fel digwyddiadau eraill ym mywyd Abraham, yw syniad afreal o'r hyn ydym. Mae credu y medrwn fyw'n ddibechod yn mynd i beri siom wrth ystyried pwy ydym ni, wrth ymwneud â phobl yr un fath â ni, ac o fewn yr Eglwys.

Dengys diwedd pennod 15 yn glir i Abraham y byddai Duw yn barod i gael ei dorri os byddai'n mynd yn ôl ar ei air, ei gyfamod ag ef. Byddech yn disgwyl, yn wyneb y fath gadarnhad, mai ymateb 'naturiol' Abraham fyddai credu Duw, byw yn ffyddlon, a sicrhau bod ei addewid iddo'n cael y lle blaenaf yn ei fwriadau a'i benderfyniadau. Mae pennod 16, ar sawl lefel, yn gosod Abraham fel yr un oedd bennaf ar fai am y modd y mae'r sefyllfa'n datblygu. Cofiwch, does neb yn ddieuog ymhlith y tri chymeriad. Sarah yw'r un sy'n cwyno ac yn beio Duw ar y dechrau, ac yn dilyn hynny mae Hagar yn byw ei bywyd i ddibrisio Sarah. Cawn ganolbwyntio ar Hagar yr wythnos nesaf.

Mae Sarah bellach tua 75 oed ac, fel Hanna yn ddiweddarach yn 1 Samuel 1:7, mae bod yn ddi-blant yn ofid calon iddi. Aethai deng mlynedd heibio ers iddi ddod i Ganaan. Roedd yn gwybod bod yr Arglwydd wedi rhoi addewid i'w gŵr y byddai'n dad i genedl, ond nid oedd hi wedi cael addewid mai trwyddi hi y byddai hyn yn cael ei sylweddoli. Daw'r addewid yn glir iddi ym mhennod 17. Ymhellach, ni welodd hi yr Arglwydd yn mynd drwy'r tân wrth dorri cyfamod ag Abraham. Er bod y digwyddiad hwn yn wrthun i ni, eto, o fewn y diwylliant, roedd Hagar yn 'eiddo' i Sarah yn gyfan gwbl, a hithau'n rhydd i wneud fel y mynnai â hi.

Ond pwynt yr awdur yma yw nad safon y diwylliant o'u hamgylch oedd safon

Abraham a Sarah. Mae Duw wedi gosod allan ei fwriad gyda golwg ar berthynas gŵr a gwraig (2:24), ond, fel yn achos Abraham a Sarah, felly droeon yn y Beibl, cawn bobl Dduw yn cefnu ar y patrwm hwn. Mewn rhyw ystyr, o edrych ar y sefyllfa yr oedd Sarah ynddi, mae yna gyfuniad o dda a drwg amdani. Mae'n sylweddoli'r angen am blentyn, dyhead Abraham am blentyn, ac efallai, oherwydd ei chariad at Abraham, mae'n barod i aberthu perthynas oedd i fod yn ecsgliwsif, er mwyn sicrhau plentyn. Mae un esboniwr yn dweud iddi, wrth weithredu fel hyn, 'for the sake of love did violence to love'. Wedi dweud hynny, mae'r Beibl yn gwbl glir am y ffordd mae'n beio Duw, ac mai bwriad y weithred oedd ceisio gwneud yr hyn nad oedd Duw wedi ei wneud.

Fel y nodais, yr un sy'n gwbl ddiesgus yn y sefyllfa yw Abraham. Sylwch ar y cymal ar ddiwedd adnod 2: 'Gwrandawodd Abram ar Sarai'. Mae rhyw atsain yma o Genesis 3:6, lle dywedir am Adda: 'a bwytaodd yntau'. Dyma'r dyn oedd wedi clywed Duw yn siarad, wedi derbyn yr addewid, ac wedi gweld Duw yn gwneud cyfamod. Dyma hefyd y dyn, fel Sarah, oedd yn gwybod beth oedd canlyniad crwydro'r tu allan i ewyllys Duw pan oeddent yn yr Aifft. Yno, mae Abraham yn gosod y berthynas ecsgliwsif yr oedd Duw yn ei bwriadu mewn perygl. Bellach, a hynny yn hanes y ferch yma o'r Aifft, mae yna ddiffyg cof, a dim arwydd o ddysgu gwersi. Mae'n ystyried y ferch hon fel dim mwy nag eiddo, ac mae'n diddorol nad yw ef na Sarah yn cyfeirio at Hagar wrth ei henw. Yn anorfod, mae yna ganlyniadau i hyn, ac mae hanes y tensiynau rhwng plant Abraham i'w gweld ar weddill tudalennau'r Hen Destament. Yn hytrach na rhoi ei fraich o amgylch Sarah i'w chysuro, i rannu ei hyder yn y Duw nad oedd yn mynd yn ôl ar ei air, i'w sicrhau o'i gariad tuag ati, mae'n gwrandao ar ei wraig yn y cynllun amhriodol yma. I bentyrru gofid, mae'n ildio i ddiwylliant y wlad yn ddiweddarach drwy ddweud wrth Sarah i ddelio â Hagar yn hytrach na delio â hi ei hun (16:6).

Er iddo geisio osgoi ailadrodd, mae geiriaw Paul yn dal i siarad mewn sefyllfa o'r fath,

fel yn ein sefyllfaoedd ein hunain: 'Felly, bydded i'r sawl sy'n tybio ei fod yn sefyll, wylio rhag iddo syrthio' (1 Corinthiaid 10:12). Siarad am bobl ffydd y mae Genesis 16, pobl sydd, o dechrau amau gair ac addewid Duw, o ddechrau amau Duw ei hun yn aml, yn esgor ar ganlyniadau hynny. Mae unrhyw ymlwybro tuag at dorri corneli fel hyn yn dod â'i ganlyniadau, gyda'r rhai 'sy'n hau y gwynt yn medi corwynt' (Hosea 8:7).

Mae maddeuant gyda Duw, mae'n maddau'n rhad ein holl gamweddau; eto, mae yna ganlyniadau i'n pechod. Yn yr achos yma, nid yn unig mae'r ddau yn pechu yn erbyn Duw, yn erbyn Hagar, ac yn pechu yn erbyn ei gilydd, ond maent mewn rhyw ffordd yn pechu yn eu herbryn eu hunain. Fel pobl sydd o'r un anian, rydym ninnau'n tystio: 'oherwydd mi wn nad oes dim da yn cartrefu ynof fi, hynny yw, yn fy nghnawd. Y mae'r ewyllys i wneud daioni gennyf; y peth nad yw gennyf yw'r gweithredu ... Y dyn truan ag ydwyf! Pwy a'm gwared i o'r corff hwn a'i farwolaeth? Duw, diolch iddo, trwy Iesu Grist ein Harglwydd!' (Rhufeiniaid 7:18, 24-5)

1. I ba raddau, yn eich tyb chi, y mae'r siom ynom ein hunain ac mewn pobl eraill i'w holrhain i ddisgwyliadau afreal o bwy ydym?
2. Oes yna sefyllfaoedd lle rydych chi wedi ceisio gwneud yr hyn y tybiwch nad yw Duw wedi ei wneud? Un enghraifft, efallai, fyddai gweddio y byddai amgylchiadau eich teulu yn gyffyrddus a'ch bod yn mynd ati mewn ffordd anghyfiawn i sicrhau hynny.
3. Mae'r cefndir yn y Dwyrain Canol yn ystod oes Abraham yn dangos nad oedd dim o'i le ar yr hyn a wnaeth y ddau yn achos Hagar. I ba raddau y byddwn ni'n cymryd safon y byd o'n hamgylch fel pren mesur, yn hytrach na byw fel pobl wahanol, pobl sydd ddim yn cydymffurfio â'r byd, ond yn caniatáu i Dduw drawsffurfio ein meddwl er mwyn i ni 'allu canfod beth yw ei ewyllys, beth sy'n dda a derbyniol a pherffaith yn ei olwg ef' (Rhufeiniaid 12:2)?

S4C

Dechrau Canu, Dechrau Canmol
Sul, 19 Chwefror, am 7.30yp

Bydd 22 Chwefror yn ddydd Mercher y Lludw. A dyna ddechrau tymor y Grawys - y cyfnod pan fydd yr Eglwys yn paratoui ar gyfer y Pasg. Bydd Ryland yn ymweld ag Ysgol Gynradd Gymunedol Eglwyswrw ac yn dysgu am eu digwyddiadau nhw i baratoi tuag at y Grawys.

BBC radio cymru

Caniadaeth y Cysegr

Sul, 19 Chwefror, am 7:30yb a 4:30yp

Jenny Ogwen yn cyflwyno emynau gan Scaramella a Chôr Crymlych

Sul, 19 Chwefror, am 12:00yp

Oedfa dan arweiniad Rob Nicholls, Llundain



O Gefn Gwlad



Stiwardiaeth

Un o'r geiriau sy'n llai amlwg yn ein hiaith nag y bu yw'r gair stiward. Mae'n bod o hyd ym myd eisteddfodau a digwyddiadau cymdeithasol o bob math; ond bu unwaith yn bwysig yn y stadau mawr, ac yn y chwareli hefyd. Roedd mwy nag un math o stiward yno, gan gynnwys y stiward gosod oedd yn gyfrifol am nodi i chwarelwyr pa fargen oedden nhw'n ei chael i'w gweithio er mwyn cynhyrchu llechi. Ac ym myd crefydd maent i'w cael o hyd, dwi'n meddwl, ymhlith y Wesleaid, sef stiwardiaid y cylchdeithiau.

Roedd Williams Pantycelyn a'i syniad o Seiat yn hoff iawn o stiwardiaid. Beth oedd eu gwaith? Mae'n dweud hynny ar ôl nodi i ddechrau: 'Yr angenrheidrwydd o Stiwardiaid mewn society profiad' (hynny ydi, y Seiat). I beth, tybed? Dyma'r ateb ganddo fo: 'Yr wyf yn edrych arnynt i fod yn ben ar bawb ... i fod yn greulon wrth rai ... ac yn dynerach wrth eraill, i ddiddanu'r gwan ei feddwl, i gryfhau'r llesg, ac i iachau clwyfau'r drylliedig ei ysbryd, ond i argyhoeddi'n llym y rhai sy' wedi pechu.'

Ie wel, llym a chreulon. Dyna'r geiriau. Mae da a drwg ym mhawb, a gallwn yn bendant amenio rhai o amcanion Williams, yn enwedig ei alwad i ofalu dros eraill, ond, bobol bach, bod yn greulon a chosbi'n llym! Falle wir mai gwrando arno fo a'i ddilynwyr arweiniodd at anfon merched o'r capel am feichiogi y tu allan i briodas. Ie, y merched, sylwch, nid y dynion. Os yw ein crefydd a mynychu addoldai wedi dirywio'n sylweddol dros y blynyddoedd, a'r nifer sy'n galw eu hunain yn Gristnogion erbyn hyn ymhell dan yr hanner, falle mai dyma ran o'r achos. Wn i ddim. Ond os ydym yn llai mewn nifer, gobeithio ein bod yn llawer iachach ein hagweddau erbyn hyn.

Rwy'n crwydro. Cyfeirio at y gair stiward yr oeddwn ac am ddweud, os yw'r gair yn diflannu o'n geirfa 'dyw ein cyfrifoldeb fel stiwardiaid y ddaear ddim, ac mae'r angen yn fwy nag erioed. Hawdd y gallwn gyfeirio at wladwriaethau ein byd sy'n gwneud popeth ond ei arbed a'i warchod – yn troi tiroedd ffrwythlon



Llun: gan OCG Saving The Ocean at Unsplash

yn anialwch, ac yn tynnu adnoddau o'r ddaear yn ddifeddwl a gwastraffus, a gollwng nwyon gwenwynig yn ddi-baid i'r awyr.

Ond beth amdanon ni, yn ein cylch bach cyfyng o fywyd? Eisiau mwy o olau, mwy o wres, ceir gwell, ceir cyflymach a'r angen i bopeth fod yn *state of the art*. Mae'n haws codi bys na thorch llewys, yn tydi.

Nid yw pob stiwardiaeth yn dda, ydi hi? Roedd gŵr arbennig yn aelod efo ni yng Nghefnddwysarn flynyddoedd yn ôl – person ardderchog iawn. Byddai'n sôn llawer am ei gefndir yn ardal y chwareli a'i waith yn y chwarel. Mi gyfeiriodd fwy nag unwaith yn ein dosbarth ysgol Sul at un neu ddau o stiwardiaid y chwarel oedd yn flaenoriaid yn y capel yr âi iddo. Tacle drwg, didrugaredd, medde fo, yn y Gwaith, ond yn wên deg ar y Sul yn y sêd fawr. Stiwardiaid oedd yn gosod bargeinion gorau'r chwarel am ffafrau

oedden nhw. Doedden nhw ddim wir yn haeddu'r teitl mewn byd – nac eglwys.

Yden ni? Yden ni'n stiwardiaid gwerth yr enw? Gwir na allwn wneud llawer, ond falle mai yn yr ymdrech i wneud yr hyn a allwn i arbed ein byd y mae'r gwerth. A chofiw'n hefyd, er yn wan ein hunain, rydym yn gryfach ac yn well stiwardiaid efo'n gilydd.

Yr hyn sy'n bwysig, er ein gwendid, yw ein bod o ddifri, gan gofio geiriau Paul at y Colosiaid: 'A pha beth bynnag a wneloch, gwnewch o'r galon, megis i'r Arglwydd, ac nid i ddynion.'

O.N. Un fu'n stiward da yw Jim Clarke, a chwith darllen dro yn ôl am ei fwriad i roi'r gorau i'w golofn 'Sylw o'r Seidin'. Falle fod ei benderfyniad yn neges i minnau. O leia y mae cysylltiad rhyngom, gyda'i wyrion o yn orwyrion i minnau!

Elfyn Pritchard

Dyma gyfarfod hyfryd iawn

Gweld o'r newydd

Galwad i addoli

Dyrchafwch yr ARGLWYDD ein Duw, ymgyrwmch yn ei fynydd sanctaidd—sanctaidd yw'r ARGLWYDD ein Duw. (Salm 99: 9)

Gweddi

Addolwn di, Arglwydd Sanctaidd. Ymgyrwm ger dy fron. Dyrchafwn dy enw; Ti, yr hwn wyt heb na dechrau na diwedd. Ym mherffeithrwydd dy sancteiddrwydd gwelwn dy fod yn dragwyddol hardd, yn fythol ddisglair, ac mai ti yn unig sydd yn deilwng o'n mawl. Cyffeswn ein llygredd a'n pechod o'th flaen gan ddeisyf am dy faddeuant yn Iesu Grist. Caniatâ i ninnau dy weld heddiw o'r newydd. Cyfaredda ni gan weledigaeth fawr, newydd ohonot. Tyrd atom, Ysbryd Glân. Dangos i ni olud Crist yn fodd i fyw. Amen.

Emyn 235 'Dyrchafer enw Iesu cu'

Neu gellir gwerthfawrogi emyn llai cyfarwydd i gynhesu ein calonnau! ['Llawryfon rhowch ar ben'](#)

Darlenniad: Mathew 17:1-9 – Y Gweddnewidiad

Dringodd Moses i fynydd uchel Sinai i bresenoldeb yr Arglwydd. Dychwelodd i'r dyffryn islaw a'i wedd yn disgleirio. Dringodd Elias fynydd Horeb, pan ffodd rhag erledigaeth Jesebel. Yno gwelwyd cyhoeddiad o bŵer ac o rym mewn daeargryn, storm a thân, cyn i Elias fedru adnabod llais ei Arglwydd yn y 'llef, ddistaw, fain'.

Dringodd Iesu, gydag Ioan, Pedr ac Iago, i ben mynydd anhysbys (Mynydd Tabor o bosib) ac yno gweddnewidiwyd Iesu. Safodd Iesu, yr hwn sy'n oleuni ac yn waredigaeth i'r holl fyd, yn ganolbwynt i dystiolaeth ffydd arwyr a saint yr oesau. Datguddiwyd yr hwn y bu i 'Moses a'r proffwydi / ddweud amdano cyn ei ddod'.

Ymhen ychydig wythnosau byddai gogoniant nefol Iesu yn cael ei guddio, a'i ddatguddio, yn yr un weithred ryfeddol a gyflawnodd ar fryn Calfaria. Wrth gyferbynnu'r ddau ddigwyddiad dywedodd Tom Wright:

Yma, ar fynydd uchel, gwelwn Iesu, wedi ei ddatguddio mewn gogoniant; yno ar fryn ar gyrion Jerwsalem gwelwn Iesu, wedi ei ddatguddio yn ei ddarostyngiad a'i warth. Yma, mae ei

wisg yn disgleirio'n llachar wyn; yno, rhwygwyd ei wisg oddi amdano, ac yno bu'r milwyr yn hapchwarae am ei wisg. Yma, o boptu iddo mae Moses ac Elias, dau o arwyr Israel, oedd yn cynrychioli'r gyfraith a'r proffwydi; yno, o boptu iddo mae dau ddrwgweithredwr, yn cynrychioli dyfnder gwrthryfel Israel yn erbyn Duw. Yma, mae cwmwl o ddisgleirdeb llachar yn cuddio'r olygfa; draw, daw tywyllwch i orchuddio'r wlad. Yma, cyhoeddodd Pedr pa mor ogoneddus oedd y cyfan a welai; yno, dacw ef yn cuddio mewn cywilydd wedi iddo wadu ei fod yn adnabod Iesu. Yma, cyhoedda llais Duw mai hwn yw ei Fab rhyfeddol, annwyl; draw, dacw filwr paganaidd yn datgan, yn ei syndod, mai hwn yn wir oedd Mab Duw.

Mewn gair, gallwn ddweud mai profiad 'pen y mynydd' sy'n esbonio'r hyn ddigwyddodd ar ben y bryn. Ac ni allwn ddeall yr hyn ddigwyddodd ar Galfaria heb ryfeddu at y datguddiad o ogoniant Iesu ar fynydd y Gweddnewidiad a'i fod ef yn ei Ymgnawdoliad, mewn ffordd ryfeddol, yn cynrychioli gobaith Israel a gobaith yr holl fyd.

Emyn 323 'Mawr oedd Crist'

Darlenniad: 2 Pedr 1:16-19 – Gogoniant Crist a'r Gair Proffwydol

Nid ar brofiadau ecstatig, na chwaith ar weledigaeth gyfriniol ddisylwedd, y saif dystiolaeth yr efengyl. Nid mewn *muthois* (*mythau*) clyfar (adn. 16), na chwedloniaeth, nac mewn gwybodaeth ddirgel a chyfrinachol a ganfyddir yn unig gan wybodusion, y saif ein ffydd. Yn wir, er mor rhyfeddol neu annhebygol yng ngolwg y byd yw'r datguddiad dwyfol, dystiolaeth yr Eglwys ar hyd y canrifoedd yw hyn: bod Duw a Thad ein Harglwydd Iesu Grist wedi datguddio'i hun yn ei Fab mewn dull cwbl unigryw. Hefyd, fod yna dystion dibynadwy a thystiolaeth hanesyddol i'w weithredoedd achubol, ac ysaif gwirionedd geiriau'r dystiolaeth o genhedlaeth i genhedlaeth yn ddigyfnawd i'w harchwilio o'r newydd ym mhob cenhedlaeth.

Pwy fyddai, mewn gwirionedd, am greu ffantasi am Dduw hollalluog yn ymddangos mewn cawd? A phwy fyddai'n mynnu bod y person dwyfol-dynol hwn wedi ymostwng i arddangos ei 'fuddugoliaeth' a'i ogoniant drwy ddiodeff ar groesbren? Ac i feddlw

cawdol, daearol ei fryd, amhosib yw credu mewn gogoniant un a ddirmygwyd mor greulon, na synied am groes fel datguddiad o ysblander gostyngedig! A pha athroniaeth welai werth mewn gosod 'codi croes' fel patrwm ffydd i bob un oedd yn arddel y ffydd, nac i gyhoeddi bod hyn oll yn agor y drws i ogoniant rhyfeddach – i gyflawnder achubol gogoniant Duw ei hun?

Wrth gyfeirio at y Gweddnewidiad mynnai Pedr, er hynny, ei fod ef ei hun, ac eraill hefyd ('oeddem', adn. 16,17,18; 'glywsom', adn. 18a; 'gennym', 19), wedi gweld 'ei fawredd' dwyfol (*megaleiotês*) wedi ei ddatguddio 'ar y mynydd sanctaidd' (adn. 18). Cyhoedda awduron eraill yn y Testament Newydd hefyd mai ar sail tystiolaeth llygaid dystion dibynadwy yr adeiledir ein ffydd ninnau hyd heddiw (Ioan 1:14; 1 Ioan 1:1-3; 1 Corinthiaid 15:3-8).

Yr hyn a *welodd* Pedr yw'r hyn ymae Pedr am i ni graffu arno ymhellach. Cawn ein cymell i *syllu* ar 'allu ein Harglwydd Iesu Grist a'i ddyfodiad', ei 'fawredd' a'r 'anrhydedd a gogoniant' a dderbyniodd gan Dduw Dad. Cawn ein gwahodd i *glustfeinio* ar y llais a lefarodd 'o'r Gogoniant goruchel yn dweud: "Hwn yw fy Mab, fy Anwyl; ynddo ef yr wyf yn ymhyfrydu."

Er mor rhyfeddol yw'r dystiolaeth hon ceir tystiolaeth arall, yn ôl Pedr, y medrwn graffu a dibynnu arni hefyd. Rhoddwyd i ni 'gannwyll' yr Ysgrhythurau i'n tywys i adnabod yr Iesu hwn. Y mae i'r Ysgrhythurau dystiolaeth hunan-ardystiol, sef eu bod yn bodoli drwy ysbrydoliaeth a symbyliad awduraeth ddwyfol-ddynol. Canolbwynt y dystiolaeth ar fynydd y Gweddnewidiad a'r Ysgrhythurau fel ei gilydd yw'r Mab a anrhydeddwyd gan Dduw. Yr un yw'r dystiolaeth ddwyfol i'r 'Gwas' yn yr Hen Destament ac i'r Mab ar fynydd y Gweddnewidiad (Eseia 42:1).

Bywheir tystiolaeth y Tad am ei Fab a'r dystiolaeth ysgrhythurol i'r Mab am weithredoedd achubol Duw, fel ei gilydd, drwy dystiolaeth Duw'r Ysbryd Glân, o'n mewn. Rhannol yw ein gwybodaeth hyd nes y daw'r awr y bydd i seren fore'r greadigaeth newydd gael ei gweld yn ysblander ei gogoniant nefol ac achubol.

Gweddi

O na allwn garu'r Iesu yn fwy ffyddlon, a'i was'naethu; dweud yn dda mewn gair amdano, rhoi fy hun yn gwbl iddo. (Richard Thomas, bl. 1821)

Emyn 294 'Iesu, difyrrwch f'enaidd drud'

RWJ

Cyhoeddir *Cenn@d* ar y cyd gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru. Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr *Cenn@d* yn cynrychioli barn swyddogol Eglwys Bresbyteraidd Cymru nac Undeb Bedyddwyr Cymru. Gallwch anfon eich cyfraniadau / gohebiaethau / ymholiadau at:

watcyn@cennad.cymru | huw@cennad.cymru | aled@ysgolsul.com
www.cennad.cymru | [f CennadCymru](https://www.facebook.com/CennadCymru) | [t @CennadCymru](https://twitter.com/CennadCymru)